



Radyr & Morganstown Community Council Cyngor Cymuned Radur a Threforgan

SWYDD WAG CYNGHORYDD CYMUNED – HYSBYSIAD CYFETHOL

[Yn unol ag Adran 116 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011]

Cymuned Cyngor Cymuned Radur a Threforgan

Ward Treforgan

RHODDIR HYSBYSIAD DRWY HYN bod sedd wag wedi codi yn swydd Cynghorydd ar gyfer y Ward a'r Gymuned a nodir uchod. Mae'r Cyngor Cymuned yn bwriadu cyfethol i lenwi'r lle gwag hwnnw.

Gellir gweld gwybodaeth am y Cyngor yn www.radyrandmorganstown.org

Ceisir datganiadau o ddiddordeb gan aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb mewn cynrychioli eu cymuned ar y Cyngor Cymuned.

Mae'r Cyngor yn dymuno gwahodd pobl â diddordeb a phobl gymwys i gyflwyno eu ceisiadau i'r cyfeiriad isod ar gyfer rôl Cynghorydd trwy llythyr yn amlinellu'r canlynol:

- y cyfraniad y credwch y gallech ei wneud i waith y Cyngor;
- y rhinweddau personol y byddech yn eu cyflwyno i'r rôl;
- eich argaeledd ar gyfer mynychu cyfarfodydd.

Rhaid i chi fod yn ddinesydd Prydeinig, y Gymanwlad, Iwerddon neu'r Undeb Ewropeaidd a bod yn 18 oed neu'n hŷn; ac yn bodloni o leiaf un o'r meini prawf canlynol:

- Bod (a hyd at heddiw) wedi'ch cofrestru fel etholwr llywodraeth leol ar gyfer y gymuned a enwir uchod;
- Yn ystod y cyfan o'r 12 mis diwethaf wedi meddiannu, fel perchennog neu denant, dir neu eiddo arall yn y gymuned a enwir uchod;
- Mae eich prif neu eich unig weithle yn ystod y 12 mis diwethaf wedi bod yn y gymuned a enwir uchod; neu
- Rydych wedi byw yn y gymuned yn ystod y 12 mis diwethaf cyfan neu o fewn 3 milltir iddi.

Gweler arweiniad pellach yma: <https://www.electoralcommission.org.uk/sites/default/files/2022-06/Part%201%20Can%20you%20stand%20for%20election%20L&W.pdf>

Mae rhai pobl wedi'u hanghymhwyso rhag sefyll, ac mae'r rhain yn cynnwys swyddogion cyflogedig y cyngor cymuned, unrhyw un sy'n destun gorchmynion cyfyngu methdaliad a'r rhai sy'n destun dedfrydau diweddar o garchar. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau ei fod yn gymwys i sefyll.

Cofiwch gynnwys eich cyfeiriad cartref, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost yn eich llythyr.



Os hoffech gael eich ystyried ar gyfer eich cyfethol ar gyfer y sedd(i) gwag neu os hoffech ragor o wybodaeth am rôl Cyngorydd Cymuned cysylltwch â Chlerc y Cyngor.

David Collins DMS
Clerc y Cyngor

Hen Ysgoldy'r Eglwys
Heol y Parc, Radur,
Caerdydd CF15 8DF

Ffôn: 02920 842213
Ebost: clerk@radyr.wales

ar neu cyn 4 Awst 2022

Bydd ceisiadau yn cael eu hystyried gan y Cyngor mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Dyddiedig 4 Gorffennaf 2022